**Mae'r nodyn hwn yn rhoi diweddariad byr ar y cynnydd o ran adolygu'r Gorchymyn Eithriadau**

## Y cefndir

Ar 11 Awst 2025, lansiodd Llywodraeth Cymru Ymgynghoriad ar Orchymyn Drafft Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2026 a'r cynnig ar gyfer Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am ddeuddeg wythnos a daeth i ben ar 3 Tachwedd 2025.

## Yr ymatebion a ddaeth i law

Cafwyd 97 o ymatebion ysgrifenedig, ynghyd â 35 o gyfranogwyr a gyfrannodd drwy grwpiau ffocws.

Mae'r ymatebion yn adlewyrchu ystod eang o safbwyntiau gan unigolion, grwpiau a sefydliadau ledled Cymru, gyda chynrychiolaeth yn cynnwys y sector cofrestredig, y sector anghofrestredig, cyrff rheoleiddio, a phlant a theuluoedd.

Cynhaliwyd gweithdai ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc gan Plant yng Nghymru. Cymerodd 41 o blant a phobl ifanc 10-25 oed ran yn y gweithdai hyn. Er na fydd y gweithdai hyn yn rhan o'r ymgynghoriad ffurfiol, fe wnaethant gynnig darlun eglur a gwerthfawr, a bwriedir cyhoeddi'r gwaith hwn ochr yn ochr â'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

## Dadansoddi a dull gwneud penderfyniadau

Mae pob ymateb wedi'i adolygu a'i ddadansoddi i nodi themâu allweddol, patrymau, a meysydd lle mae cytundeb neu wahaniaeth barn. Dadansoddwyd yr adborth ansoddol a'r adborth meintiol.

Rhannwyd trosolwg o'r canfyddiadau a'r argymhellion tebygol gyda'r Grŵp Cynghori ar 27 Tachwedd 2025 gan adlewyrchu barn a rhesymeg y cyfranwyr.

Mae'r argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth o'r grwpiau ffocws, ymatebion ysgrifenedig, amcanion yr adolygiad, a chanfyddiadau asesiadau effaith, gyda'r tîm yn pwyso a mesur yr holl adborth yn ofalus yng nghyd-destun nodau'r adolygiad ac yn ystyried yr effaith ar blant gan ddefnyddio'r asesiadau effaith integredig i lywio eu penderfyniadau. Mae'r holl argymhellion yn ddarostyngedig i brosesau gwneud penderfyniadau'r Gweinidogion.

## Y camau nesaf

Mae'r camau nesaf yn cynnwys profi a thrafod pellach gyda'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol. Rydym wedi ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

Bydd dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y cynnig ar gyfer Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau yn cael ei gynnal nesaf.

**Amserlenni allweddol**

- Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'w gyhoeddi ddiwedd mis Ionawr, neu cyn gynted â phosibl ar ôl hynny.
- Gorchymyn i'w osod ym mis Chwefror 2026
- Craffu gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
- Dadl yn y Senedd
- Rhagwelir y bydd y Gorchymyn Eithriadau 2026 drafft yn cael ei wneud ym mis Ebrill 2026, yn dod i rym ym mis Ebrill 2027 ac yn llwyr orfodadwy erbyn mis Ebrill 2028 yn dilyn cyfnod pontio o flwyddyn.

Diolch i bawb a gyfrannodd eu barn a'u harbenigedd.